
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Sicrhau gwerth am arian yn y defnydd o weithredoedd tendrau sengl

## Ystyriaethau allweddol i GIG Aelodau'r Pwyllgor Archwilio



# Cyflwyniad

Mae pwysigrwydd sicrhau gwerth am arian drwy gaffael cadarn yn hanfodol ar draws y sector cyhoeddus. Yn ôl polisi Llywodraeth Cymru (fel y nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru[1]), dylai cyrff yn y sector cyhoeddus gaffael nwyddau a gwasanaethau drwy gystadleuaeth deg ac agored, gan yr ystyrir mai dyma'r ffordd orau i sicrhau gwerth am arian a sicrhau priodoldeb a chysondeb.

Fodd bynnag, nid cystadleuaeth yw'r unig ffordd i arddangos gwerth am arian; gall fod sefyllfaoedd lle y mae'n fwy priodol ymgysylltu â darparwr sengl drwy ddefnyddio gweithred tendr sengl (cyfeirir at hyn weithiau fel 'hepgor tendr sengl'). Mae cyfarwyddiadau ariannol sefydlog y GIG yn caniatáu gweithredoedd o'r fath ond yn nodi'n glir mai 'eithriad' yw'r rhain.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ein timau archwilio wedi gweld cynnydd yn y defnydd o weithredoedd tendrau sengl, ac mae hyn wedi ein hysgogi i gynhyrchu'r ystyriaethau isod gyda'r nod o gynorthwyo aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn eu gwaith o archwilio a herio'r defnydd o weithredoedd tendrau sengl yn eu cyrff GIG.

1 Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, sy'n nodi'r fframwaith a'r egwyddorion y mae'n rhaid eu cymhwyso yn Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi, y GIG yng Nghymru, ei chomisiynwyr, Cyngor y Gweithlu Addysg, Estyn ac is-gyrff Llywodraeth Cymru.

# Ystyriaethau i aelodau'r Pwyllgor Archwilio

## Tabl A

**A ydych chi'n deall o dan ba amgylchiadau y gellir gweithredu tendr sengl?**

| Amgylchiadau a nodir yn y cyfarwyddiadau ariannol sefydlog model | Beth allech chi ddisgwyl ei weld yn ymarferol allai... |
|---|---|
| Mae angen cwmni neu gontractwr sengl o natur arbennig<br><br>Mae angen eitem briodol neu wasanaeth o natur arbennig | **…awgrymu bod gweithred tendr sengl yn briodol:**<br>• mae'r gwasanaeth/nwyddau yn waith dilynol lle mae darparwr eisoes wedi ymgymryd â gwaith cychwynnol yn yr un maes (a lle bo'r gwaith cychwynnol wedi'i ddyfarnu mewn cystadleuaeth agored);<br>• mae mater cydweddu y mae'n rhaid ei gyflawni e.e. y mae angen offer penodol, neu gydymffurfio gydag amod gwarant penodol;<br>• dim ond un cyflenwr go iawn sydd ar gael;<br>• mae angen cadw contractwr penodol er mwyn sicrhau parhad busnes gwirioneddol (ac nid dymuniadau personol yn unig). |
| | **…awgrymu bod gweithred tendr sengl yn amhriodol:**<br>• mae'r farchnad yn gystadleuol;<br>• nid oes ffactorau i awgrymu y byddai hyn yn sicrhau gwerth am arian;<br>• pwysau amser yn hytrach nag ystyriaethau gwerth am arian sy'n ysgogi'r weithred tendr sengl;<br>• mae pwysau i wario arian yn hwyr yn y flwyddyn ariannol;<br>• mae cynefindra / perthynas gyda'r cyflenwr;<br>• mae yna weithredoedd tendrau sengl parhaus gydag un cyflenwr penodol;<br>• mae gwerth y contract yn fwy na throthwyon caffael yr UE (£589,148 ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau penodol eraill; £106,047 ar gyfer Contractau Cyflenwi, Gwasanaethau a Dylunio; a £4,104,394 ar gyfer Contractau Gwaith). |

## Tabl B

### A ydych chi’n deall y broses gymeradwyo ac adrodd sy’n ofynnol i weithredoedd tendrau sengl?

| Gofynion y cyfarwyddiadau ariannol sefydlog model | Beth allech chi ddisgwyl ei weld yn ymarferol: |
|---|---|
| < £25,000: Mae’n rhaid i’r Cyfarwyddwr Cyllid awdurdodi ac mae’n rhaid i’r bwrdd iechyd lleol gadw cofnod manwl ac hysbysu’r Pwyllgor Archwilio.<br><br>> £25,000: Mae’n rhaid cyflwyno’n ffurfiol i’r Prif Weithredwr; bydd yntau’n darparu awdurdod ysgrifenedig, yn cadw cofnod manwl ac yn hysbysu’r Pwyllgor Archwilio.<br><br>Mae’n rhaid hysbysu’r Pwyllgor Archwilio o estyniadau i gontractau. | Hysbysu’r Pwyllgor Archwilio yn rheolaidd (fel sy’n briodol i amlder/arwyddocâd gweithredoedd tendrau sengl).<br><br>Tystiolaeth/sicrwydd bod yr adroddiad yn gyflawn a chywir. (Beth yw’r broses ar gyfer cwblhau? Sut mae’n cymharu gydag adroddiadau blaenorol?)<br><br>Sail eglur ar gyfer pob gweithred tendr sengl gan gynnwys sut y ffurfiodd y Cyfarwyddwr Cyllid/Prif Weithredwr eu casgliad, a thystiolaeth o ystyriaeth briodol (gweler y dangosyddion yn **Nhabl A**).<br><br>Data parhaus yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio ar werth contractau a ddyfarnwyd neu a estynnwyd gan weithredoedd tendrau sengl. |

## Tabl C

# A ydych chi'n archwilio gweithredoedd tendrau sengl yn ddigonol ac yn gweithredu lle bo hynny'n briodol?

| Gofynion y cyfarwyddiadau ariannol sefydlog model | Beth ddylech chi ei ystyried yn ymarferol: |
| --- | --- |
| Dim gofynion penodol | A yw'r adroddiad yn ymddangos yn gyflawn? (Gweler **Tabl B**)<br>A oes tystiolaeth o ystyriaeth ddigonol gan y Cyfarwyddwr Cyllid/Prif Weithredwr?<br>A oes tystiolaeth o unrhyw reswm dros duedd o blaid cymryd gweithred tendr sengl?<br>A oes unrhyw ddangosyddion yn bresennol yn **Nhabl A**?<br>A oes tystiolaeth bod nifer neu gyfran y gweithredoedd tendrau sengl yn cynyddu, ac os felly, a oes rhesymau dilys?<br>Lle gwelir bod problemau, a ydych yn ystyried camau nesaf priodol fel?<br>• cyfeirio'r mater at y Bwrdd;<br>• gofyn am wybodaeth bellach;<br>• gwneud argymhellion i'r Cyfarwyddwr Cyllid/Prif Weithredwr;<br>• gwneud cais am Archwiliad Mewnol. |

# Nodiadau